
# Brwydr Jericho



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Wythnos yma byddwn yn parhau gyda stori Josua yn union ar ôl i blant Israel groesi'r afon Iorddonen ac yn awr maent yng ngwlad yr Addewid. Bydd ein gwers yn ffocysu ar sut rhoddodd Duw'r fuddugoliaeth dros Jericho a pam bod Rahab a'i theulu wedi osgoi'r dinistr. Mae ein testun i'w gael yn Josua 5:13 – 6:1-27. Rhai o'r pwyntiau yw:

- Gall Dduw newid bywydau bobl.
- Does dim ots pa bethau drwg rydym wedi gwneud, bydd Duw yn ein maddau pan rydym yn edifarhau.
- Pan rydym yn ufuddhau, mae Duw yn rhoi'r fuddugoliaeth i ni.
- Gallwn fod yn rhan o deulu Duw.

## Canllaw'r wers

Atgoffwch y plentyn bod Josua nawr yn arweinydd Israel yn lle Moses, ac mae'r amser wedi dod i gymryd Gwlad yr Addewid. Gofynnwch i'r plentyn os ydynt yn cofio pa mor hir bu'r Iddewon yn crwydro yn yr anialwch.

Eglurwch fod dinasoedd amser hir yn ôl yn cael waliau uchel i'w hamddiffyn. Os ydych yn byw yn agos i ddinas furiog, gallwch gymryd trip un dydd i weld y muriau. Os nad ydych yn byw yn agos i ddinas furiog, dangoswch luniau ar lein i'r plentyn.

Siaradwch am Rahab. Eglurwch fod hi'n byw bywyd oedd ddim yn anrhydeddu Duw. Pwyntiwch allan ei bod wedi edifarhau ac ymddiried yn Nuw. Doedd Duw ddim yn unig wedi maddau ei phechodau, ond roedd hefyd wedi ei gwneud yn rhan o gart achau'r Iesu. Os oes gennych gart achau, gallwch ei ddangos i'r plentyn. Gallwch hefyd greu cart achau syml i'r plentyn i'w helpu i ddeall. (cyfeiriwch yn ôl i wers wythnos diwethaf "Josua")

Gofynnwch i'r plentyn os ydynt yn cofio pa liw oedd yr edau hongiodd Rahab yn ei ffenestr. Adeiladwch wal o friciau a hongiwch ddarnau o gortyn neu edafedd gwahanol liw ar y waliau. Gofynnwch i'r plentyn pa ffenest yw un Rahab. Meddyliwch am sut mae coch yn lliw gwaed yr Iesu sy'n ein hachub o'n pechodau.

Gofynnwch i'r plentyn os ydynt erioed wedi ceisio gwneud rhywbeth amhosibl. Siaradwch am bethau amhosibl. Gall rhai bod yn wirion (dydi cathod ddim yn siarad Saesneg) tra bod eraill yn ddifrifol (gallwn ddim achub ein hunain o'n pechodau.) siaradwch am sut mae popeth yn bosib gyda Duw. Dangoswch lun i'r plentyn o wal fawr sy'n cylchu dinas (fel Jerwsalem.) Gofynnwch a byddai'n hawdd dinistrio'r wal. Awgrymwch rhai pethau gallai gwneud twll ynddo. Trafodwch fel na ddewisodd Duw dractor neu bêl dryllio. Yn lle, cafodd y bobl i ymdeithio o gwmpas y ddinas.

Ymdeithiwch o gwmpas y wal blociau gwnaethoch am y gêm edafedd lliw uchod. Gofynnwch i'r plentyn gyfri gyda chi bob tro rydych yn cylchu'r wal. (Os yw'r wal yn fach, gosodwch y blociau ar fwrdd a cherddwch o gwmpas y bwrdd yn lle.) Ar rif saith, gweiddwch a gwneud synau utgorn. Tarwch y wal i lawr.

Atgoffwch y plentyn pan bod Duw yn dweud i wneud rhywbeth, bydd yn gwneud ffordd i gyflawni hyn. Mae Ei ffyrdd bob amser yn gweithio, ac mae'n gallu rhoi'r fuddugoliaeth i ni.

Dathlwch fod popeth yn bosib gyda Duw.

Gweddïwch a gofynnwch i'r Iesu eich helpu i ymddiried Ynddo ac i wybod Ei fod yn gallu gwneud unrhyw beth.

© 2023 truewaykids.com




Siaradodd neb wrth iddynt ymdeithio o gwmpas y ddinas chwech gwaith, ond ar y saithfed tro, gwaeddon nhw i gyd mor uchel a gallent, a cwympodd waliau Jericho gyda chwalfa enfawr.

Roedd y ddinas wedi ei dinistrio, ond achubodd Duw Rahab a'i theulu oherwydd bod ganddi ffydd Ynddo.





# Brwydr Jericho

Roedd Josua yn ymddiried yn Nuw ac yn gwybod ei bod yn amser i fynd i mewn i Wlad yr Addewid.

Anfonodd Josua ysbiwyr i edrych ar y wlad. Anfonodd rhai ysbiwyr i ddinas o'r enw Jericho.

Roedd Jericho yn ddinas gyda waliau enfawr.




Roedd gwraig o'r enw Rahab yn byw yn Jericho.

Roedd wedi gwneud llawer o bethau drwg ond roedd wedi clywed am Dduw a rhoddodd ei ffydd Ynddo.

Pan edrychodd y brenin am yr ysbiwyr, cuddiodd Rahab nhw a'u helpu i ddianc.




Rhoddodd Dduw gynllun i Josua. Dywedodd wrtho am ymdeithio o gwmpas y ddinas am saith dydd gyda'r bobl i gyd.
Ar y saithfed dydd, dywedodd Josua, "rydym yn mynd i ymdeithio o gwmpas y ddinas saith gwaith. Byddwn yn gweiddi ac yn chwythu ein utgyrn, a bydd Duw yn gwneud i wal Jericho gwympo i lawr yn fflat."

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## ACTIO ALLAN Y STORI

Defnyddiwch flociau i adeiladu castell yng nghanol yr ystafell neu fwrdd. Actiwch allan digwyddiadau'r chwe dydd. Ewch o gwmpas y blociau/bwrdd mawr unwaith wedyn ewch yn ôl i eistedd a galwch hwnna'r dydd cyntaf. Ail-wnewch yr un fath chwe gwaith, wedyn gwnewch y saith cylch ar y seithfed tro. Gallwch hefyd ei actio allan gyda phobl tegan.





## CERDDORIAETH UCHEL

Mae plant yn dwlu ar wneud sŵn, llawer mwy nac ydy'r cymdogion yn hoffi clywed, felly byddwch yn synhwyrol gyda'r un yma. Ffeindiwch offerynnau cerdd neu defnyddiwch rhai eitemau sydd o gwmpas eich tŷ. Potiau a phaniau, bwcedi, tiwbiau rholyn cegin neu'r utgorn o'r crefft wythnos yma. Ar y cyfrifiad o saith dywedwch wrthynt am wneud cymaint o sŵn ag y gallent.


## CUDDIWCH YR YSBÏWR

Ffeindiwch degan i fod yn un o'r ysbiwyr yn Jericho. Cymerwch droeon i guddio'r ysbïwr rhywle yn yr ystafell neu'r tŷ.

I'w gwneud yn haws, gallwch chwarae oer neu boeth wrth i'r plentyn symud yn nes neu'n bellach i ffwrdd.




© 2023 truewaykids.com





© 2023 truewaykids.com


# Ymdeithiwch o gwmpas Jericho 7 gwaith





© 2023 truewaykids.com

# Taflen gwaith rhif 7





## Lliwiwch i mewn 7 cylch



© 2023 truewaykids.com

# Nodwch 7 gwahaniaeth






# CREFFT UTGORN

## Pethau byddwch angen:


- Templed
- Cerdyn gwyn
- Pensiliau lliw, greonau neu baent
- Tâp gludiog
- Glud



## Beth i'w wneud:





Printiwch y templed ar gerdyn gwyn.




Lliwiwch yr utgorn mewn unrhyw liw rydych yn hoffi.




Torrwch allan o'r cerdyn.




Amlapiwch y darn i'r geg gyda'r tâp gludiog. Bydd hyn yn ei amddiffyn rhag gwlychu wrth i'r plentyn chwythu.





Plygwch ar hyd y lein dotiau yn ofalus a rholiwch i'w gludo. Gadewch i sychu. Os mewn brys gallwch hefyd ddefnyddio tâp gludiog yma.




Pan yn sych rhowch haen arall o dâp gludiog o gwmpas y darn i'r geg.

© 2023 truewaykids.com





I gael y canlyniad gorau printiwch ar gerdyn gwyn.


© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Jericho's Wall Came Falling Down

https://youtu.be/l5CrXYME7Yo

## Joshua fought the Battle of Jericho

https://youtu.be/H3QUS4B0iaM

## I'm In The Lord's Army

https://youtu.be/nJoB5XCQ5gs



# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw Ei fod yn maddau pobl.

Diolchwch i Dduw bod dim yn amhosibl Iddo.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i ymddiried ac ufuddhau.

# Wythnos Nesaf:

## Debora

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2023 truewaykids.com